**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**14 Mehefin 2024**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Adroddiad Blynyddol 2023-24 |
| **AWDUR:** | Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-2024.

1.2. Mae adrodd chwarterol a blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y Bwrdd yn ystyried ac yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-24.

2.2. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-24 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r adroddiad blynyddol yn edrych yn ôl ar y cynnydd sydd wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf gan Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'n ymdrin â'r Cynllun Twf a'r gweithgareddau cefnogol eraill.

4.2. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r Cynllun Twf a'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth gyflawni'r prosiectau ynghyd â cherrig milltir allweddol eraill sydd wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Cymeradwyo pump Achos Busnes Amlinellol, sef y Rhwydwaith Talent Twristiaeth, Egni,. Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy, 4G+ a Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych.
- Cymeradwywyd Achos Fusnes Llawn y prosiect Canolan Opteg a Pheirianneg Menter gan symud i weithredu'r prosiect a dechrau ar y gwaith adeiladu ar y safle.
- Gwahoddwyd pum prosiect newydd i ymuno â'r Cynllun Twf, sef Stiwdios Kinmel, Anturiaethau Cyfrifol, Porth Wrecsam, Hwb Hydrogen Caergybi a Gwaith Treulio Anerobig Glannau Dyfrdwy.
- Lansiwyd Her Ariannwr Hydrogen a phenodwyd ariannwr i arwain y gwaith cyflawni yn amodol ar i'r partïon gytuno ar Femorandwm o Ddealltwriaeth.

- Cydnabuwyd methodoleg allyriadau carbon a bioamrywiaeth Uchelgais Gogledd Cymru fel Astudiaeth Achos Arweinyddiaeth yng nghanllawiau carbon mewn isadeiledd cenedlaethol y DU.
- Derbyniwyd cymeradwyaeth weinidogol ar gyfer Gorchymyn Adolygu Harbwr i brosiect porthladd Caergybi.
- Sicrhawyd dros £1 miliwn mewn cyllid ychwanegol trwy'r Gronfa Ffyniant Cyffredin i ychwanegu mwy at effaith y Cynllun Twf. Mae'r ffrydiau gwaith yn cynnwys Sgiliau a Chyflogadwyedd, Ynni a Sero Net, Buddion a Gwerth Cymdeithasol a Chysylltedd Digidol.
- Cyflawnwyd prosiect Cronfa Band-eang Lleol Llywodraeth Cymru i ddarparu band eang ffeibr optig sydd â gallu gigabit mewn un-deg-saith o adeiladau cyhoeddus, gan gynnwys meddygfeydd, llyfrgelloedd a neuaddau pentref yng Ngogledd Cymru.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ac yn un o ofynion allweddol Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

---

**ATODIADAU:**

**Atodiad 1** Adroddiad Blynyddol 2023-24

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Ni fydd y penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant newydd. Rwyf yn fodlon fod yr Adroddiad Blynyddol yn adlewyrchiad cywir a theg o holl waith a chynnydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod 2023/24."